

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

BIL DIOGELWCH ADEILADAU

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Adeiladau (y “Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2021. Ar 15 Medi, cyflwynodd Llywodraeth y DU 22 o welliannau i'w hystyried yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Gellir cael copi o'r Bil yn:
<https://bills.parliament.uk/bills/3021>

Amcanion Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw diwygio'r system diogelwch adeiladau er mwyn gwella diogelwch a pherfformiad pob adeilad a sefydlu cyfundrefn fwy llym i atgyfnerthu'r ffordd y mae risgiau tân a risgiau diogelwch strwythurol yn cael eu rheoli mewn adeiladau newydd ac adeiladau presennol sydd yn y cwmpas (a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer adeiladau preswyl dros 18m).
4. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer goruchwyllo cynhyrchion adeiladu yn y DU drwy fframwaith cryfach a chreu system reoleiddio newydd.
5. Yn olaf, bydd Ombwdsmon Cartrefi Newydd yn goruchwyllo datblygwyr cartrefi a adeiledir o'r newydd, gan ddarparu llwybr ar gyfer gwneud iawn i gwsmeriaid ac mae'r broses ar gyfer materion tai cymdeithasol i fynd i'r ombwdsmon tai wedi'i symleiddio. Mae'r darpariaethau hyn ond yn gymwys mewn perthynas â Lloegr ar hyn o bryd.

Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.
7. Mae'r Bil yn gweithredu argymhellion ‘Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân’ y Fonesig Judith Hackitt (‘Adolygiad Hackitt’). Mae'r Bil yn gosod gofynion newydd o ran dylunio, adeiladu, meddiannu ac adnewyddu adeiladau risg uwch ac adeiladau eraill. Gwneir newidiadau

eraill i oruchwylio personau, cynhyrchion adeiladu sy'n gysylltiedig â'r system a chreu ombwdsmon cartrefi newydd.

8. Mae rhagor o wybodaeth am y Bil ar gael yn y [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 19 Gorffennaf 2021](#).

Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

9. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 19 Gorffennaf 2021, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU (Tŷ'r Cyffredin) ar 5 Gorffennaf 2021. Cadarnhaodd y memorandwm fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i cyflwynwyd.
10. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am welliannau technegol i'r Bil er mwyn sicrhau bod y darpariaethau'n gweithio i Gymru. Felly, rydym yn croesawu cynnwys y gwelliannau a amlinellir ym mharagraffau 11 i 33, sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac sy'n mynd i'r afael â materion a godwyd gennym gyda Llywodraeth y DU.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf y mae angen cydsyniad ar ei gyfer.

11. Mae'r gwelliannau canlynol, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, wedi'u cyflwyno i'r Bil yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin:
12. Mae cymal 30 (Gwelliant 17) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio adeilad ("building") at ddibenion adran 120I o Ddeddf Adeiladu 1984 (a fewnosodir gan y cymal hwn). Bydd rheoliad a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae gwelliannau [37 a 38] yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn.
13. Mae cymal 41 (Gwelliant 18) yn darparu bod adran 91B (sy'n cynnwys darpariaethau newydd o ran cydweithredu a rhannu gwybodaeth) o Ddeddf Adeiladu 1984 (a fewnosodir gan Atodlen 5 i'r Bil) yn gymwys mewn perthynas â pherson y dirprwyir swyddogaethau iddo o dan adran 58Y fel y mae'n gymwys mewn perthynas â Gweinidogion Cymru. Mae gwelliannau [23 – 35] yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn.
14. Mae cymal 142 (Gwelliant 19) yn darparu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud o dan gymal 143. Nod y gwelliant hwn yw diogelu'r setliad datganoli drwy sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 142 a swyddogaeth Gweinidogion Cymru yng nghymal 143.
15. Mae cymal 146 (Gwelliant 20) yn rhoi pwerau cychwyn penodol i Weinidogion Cymru. Mae'r pŵer i Weinidogion Cymru i gychwyn

darpariaethau wedi'i gyfyngu i Ran 3 a chymal 134 sef y rhannau o'r Bil yr ydym wedi gofyn am ddarpariaeth bwrpasol ar gyfer Cymru ynddynt. Mae'r cymal wedi'i ddrafftio er mwyn sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol a swyddogaeth Gweinidogion Cymru. Mae gwelliannau [21, 35 a 38] yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn.

16. Mae cymal 146 (Gwelliant 21) yn darparu y caiff rheoliadau cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.
17. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 22) yn darparu nad yw darpariaethau penodol o Ddeddf Adeiladu 1984 yn effeithio ar hawl y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru i wneud cais am waharddeb ar y sail bod unrhyw waith yn mynd yn groes i ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf honno neu oddi tani.
18. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 23) o ganlyniad i'r newidiadau a wneir i'r adran hon gan welliannau eraill ac mae'n diwygio pennawd yr adran i adlewyrchu'r cynnwys yn well.
19. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 24) a gwelliant 31 yn darparu bod y ddyletswydd o dan adran newydd 91B(1) (o Ddeddf Adeiladu 1984) i gydweithredu yn gymwys i awdurdodau tân ac achub Cymru (fel y'u diffinnir gan welliant 33) ac arolygwyr tân (fel y'u diffinnir gan welliant 30), yn hytrach nag awdurdodau tân ac achub fel y'u diffinnir gan Ddeddf Adeiladu 1984.
20. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 25) yn dileu'r cyfyngiad ar y ddyletswydd i gydweithredu, sydd ar hyn o bryd yn darparu bod y ddyletswydd ond yn gymwys i swyddogaethau i'r graddau y mae'n ymwneud ag adeiladau risg uwch.
21. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 26) o ganlyniad i welliant 24 ac mae'n diwygio'r cyfeiriad at yr awdurdod lleol ("the local authority") i awdurdod lleol ("a local authority") i adlewyrchu'r diffiniad o berson perthnasol ("relevant person") a ddarperir yn adran newydd 91B(3).
22. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 27) o ganlyniad i welliant 24 ac yn diwygio'r cyfeiriad at yr awdurdod tân ac achub ("the fire and rescue authority") i awdurdod tân ac achub yng Nghymru ("a Welsh fire and rescue authority") i adlewyrchu'r diffiniad o berson perthnasol ("relevant person") a ddarperir yn adran newydd 91B(3).
23. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 28) o ganlyniad i welliant 24 ac yn darparu mai swyddogaethau arolygydd tân sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau cydweithredu adran newydd 91B yw'r rhai sydd ganddynt o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.
24. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 29) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a phersonau perthnasol i gydweithredu â'i gilydd wrth arfer

swyddogaethau penodol, a phŵer i ddatgelu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny

25. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 30) yn diffinio arolygydd tân ("fire inspector") at ddibenion yr adran.
26. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 31) yn newid y diffiniad o berson perthnasol ("relevant person") at ddibenion yr adran fel bod arolygydd tân, yn ogystal ag awdurdod lleol yng Nghymru ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru, wedi eu cynnwys yn y diffiniad.
27. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 32) yn newid y diffiniad o swyddogaeth berthnasol ("relevant function") at ddibenion yr adran ac mae o ganlyniad i welliant 31.
28. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 33) yn diffinio awdurdod tân ac achub yng Nghymru ("a Welsh fire and rescue authority") at ddibenion yr adran.
29. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 34) yn darparu nad yw datgelu gwybodaeth o dan yr adran hon yn torri unrhyw rwymedigaeth o safbwynt cyfrinachedd na chyfyngiad arall, ac nad yw'r adran yn awdurdodi datgelu gwybodaeth a fyddai'n mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth diogelu data.
30. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 35) yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â throsglwyddo'r pŵer i wneud gorchmynion o dan adran 134 o Ddeddf Adeiladu 1984 (cychwyn), mewn perthynas â Chymru, i Weinidogion Cymru.
31. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 36) o ganlyniad i welliant 17 ac yn gwneud rheoliadau o dan adran newydd 120I(4) o Ddeddf Adeiladu 1984 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
32. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 37) o ganlyniad i welliant 17 ac mae'n cael yr effaith o sicrhau nad yw'r diffiniad presennol o adeilad ("building") yn a.121 o Ddeddf Adeiladu 1984 yn gymwys at ddibenion adran newydd 120I.
33. Mae Atodlen 5 (Gwelliant 38) yn darparu, mewn perthynas â Chymru ac yn ddarostyngedig i eithriad ar gyfer y darpariaethau a restrir yn is-adran (1B), fod y pŵer i wneud gorchmynion cychwyn o dan Ddeddf Adeiladu 1984 yn bŵer i Weinidogion Cymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd

34. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pob un o'r 22 o welliannau a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar 15 Medi yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.
35. Gwnaethom ofyn am welliannau i'r darpariaethau cychwyn (gwelliannau 20, 21, 35 a 38) er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i

gychwyn darpariaethau sy'n gymwys yng Nghymru, er mwyn galluogi'r darpariaethau hyn i gael eu cychwyn yn unol â'n hamserlennu. Mae'r gwelliannau technegol eraill i'r Bil wedi'u cynllunio i sicrhau bod y darpariaethau'n gweithio i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â chydweithredu a rhannu gwybodaeth a gallu Gweinidogion Cymru i ddiffinio adeiladau risg uwch.

Goblygiadau ariannol

36. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â'r gwelliannau. Ceir crynodeb o effaith ariannol y Bil fel y mae'n cael effaith ar Gymru yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 19 Gorffennaf 2021, gyda rhagor o fanylion ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://llyw.cymru/y-mesur-diogelwch-adeiladu-asesiad-or-ffaith-economaidd>

Casgliad

37. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i wella diogelwch adeiladau ac ymdrin â'r beirniadaethau a roddir ar y cyfnodau dylunio, adeiladu ac adnewyddu ar gyfer adeiladau.

38. Rwyf yn dal o'r farn y bydd y Bil yn darparu'r arfau angenrheidiol y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu eu defnyddio i foderneiddio'r system yng Nghymru i sicrhau bod adeiladau'n cael eu cynllunio a'u hadeiladu yn unol â'r safonau a ddisgwyliwn. Credaf mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol i'r darpariaethau hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl, gan ein galluogi i wella'r system yn sylweddol ar gyfer sicrhau diogelwch adeiladau.

39. Felly, rwyf yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r gwelliannau hyn i'r Bil gan Senedd y DU ac yn rhoi ei chydsyniad.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
21 Medi 2021